TABERNACLECARDIFF

Pen-y-wain Road, Roath, Cardiff, CF24 4GG

Pastor Dewi Higham, 4 Clos Cromwell, Rhiwbina, Cardiff, CF14 6QN » 029 2062 8826 » pastor@tabernaclecardiff.org
Sunday Services – 10:30am & 6:00pm » www.tabernaclecardiff.org » Charity Registration Number: 1106761

Annwyl Ffrind yng Nghrist,

Parthed : Gwasanaethau Cymraeg yng Nghaerdydd – "Capel y Rhath"

Ers 2004 cynhaliwyd astudiaethau Beiblaidd Cymraeg unwaith y mis, yn gyntaf yng nghartref Alun a Helen Higham ac yn fwy diweddar yn neuadd Tabernacle Cardiff. O'r cychwyn ein gobaith oedd y byddai'r cyfarfod misol hwn yn arwain y ffordd i sefydlu Capel Efengylaidd Diwygiedig Cymraeg. Os Duw a'i myn bydd gwasanaeth wythnosol Cymraeg yn cael ei gynnal bob Sul yn adeilad Tabernacle Cardiff gan ddechrau **5 Mehefin 2011.** Bwriad Tabernacle Cardiff, ar yr amser priodol, yw ordeinio Alun Higham i'r weinidogaeth Gristnogol ac i'r gwaith hwn.

Y mae Cymry Cymraeg ein gwlad wedi hen ymadael â'r Efengyl a oedd unwaith yn llanw'n gwlad â'i gogoniant. Yr oedd y cydbwysedd Beiblaidd rhwng y Gair a'r Ysbryd i'w weld ar ei orau yn ein gwlad ar un amser. Er mawr dristwch inni mae ein gwlad wedi caledu ei chalon ac y mae hi bellach ymhell oddi wrth bethau Duw, efallai ymhellach hyd yn oed na rhannau eraill o Brydain. Yn debyg i genhedloedd eraill yn ein byd, y ffordd orau i gyrraedd â phobl yw trwy eu mam-iaith ac felly ein gweledigaeth yw cyrraedd calonnau'r Cymry Cymraeg trwy yr iaith Gymraeg. Ymddiriedwn, trwy ras a nerth Duw, i ddod a bywyd Crist i'w heneidiau anfarwol.

Er mwyn ymroddi i'r gwaith yma, y mae Alun wedi lleihau ar ei ddyddiau dysgu ac mae'n gweithio rhan-amser. Ein gweddi yw y bydd y ddarpariaeth ariannol yn cael ei chefnogi gan eglwysi cytûn a ffrindiau cristnogol. Ysgrifennwn felly at rai efallai a fydd â diddordeb yn y gwaith hwn ac o bosibl a fyddai'n ystyried cefnogi'r gwaith yn weddïgar ac yn ariannol.

I ddechrau, bydd y fenter hon yn gysylltiedig â Tabernacle Cardiff gan ddefnyddio'u hadeilad a'u cyfleusterau. Os Duw a'i myn, fodd bynnag, y bwriad yw creu Capel Cymraeg annibynnol. Yn y cyfnod arloesol hwn o'r gwaith, cynhelir y gwasanaethau ym mhrif adeilad y capel am 3:30yp bob Sul. Caniatâ hyn i aelodau Tabernacle Cardiff gefnogi'r gwaith a pharhau â'u presenoldeb yng ngwasanaethau boreol a hwyrol Tabernacle Cardiff. Dros amser, ymddiriedwn y bydd cynulleidfa newydd yn codi ac y bydd y gwaith yn llai dibynnol ar gefnogaeth Tabernacle Cardiff. Byddwn hefyd yn cynnal cwrdd gweddi ar y 3edd nos Iau ymhob mis.

Yn ystod y cyfnod ffurfiannol hwn o'r gwaith yr ydym wedi sefydlu grŵp bychan o bobl i edrych i mewn i anghenion ymarferol a chyllidol Alun a Helen. Os oes diddordeb gennych i gael gwybod rhagor am y gwaith neu i gefnogi'n ariannol, gallwch gysylltu â'r cyfeiriad isod.

Boed i'r Arglwydd weld yn dda i fendithio'r ymdrechion bychain hyn er mwyn ei Enw.

Yr eiddoch yng Nghrist

Dewi Higham (ar ran Grŵp Cefnogaeth Menter Efengylu)
Anton Faulconbridge, Gwawr Faulconbridge, Nick Lloyd, Dewi Higham

Gwybodaeth bellach a Chymorth Ariannol:
Mrs Gwawr Faulconbridge (ysgrifenyddes), Grwp Cefnogaeth Menter Efengylu, d/o Tabernacle Cardiff, Pen-y-Wain Road, Y Rhath, Caerdydd CF24 4GG » gwawr@tabernaclecardiff.org » 029 20403630 (nosweithiau Llun – Gwener yn unig)
Am wybodaeth bellach ewch i www.tabernaclecardiff.org/go/capelyrhath
Sieciau yn daladwy i 'Tabernacle Cardiff'. Gellir cael gwybodaeth gan Gwawr Faulconbridge ynglyn â chyfrannu'n rheoliadd (gan gynnwys gift aid).